
LAND OF PLENTY CYMRU

Ionawr 2024



Archwilio llwybrau sy'n gyfeillgar i natur i ddatgarboneiddio amaethyddiaeth Cymru a meithrin diogelwch maeth

@Aled Llywelyn / WWF Cymru

Crynodeb gweithredol

Mae Cymru'n wynebu Her Driphlyg. Sut gallwn ni gyflawni sero net, adfer bioamrywiaeth, a sicrhau bwyd cynaliadwy a maethlon, nawr ac yn y degawdau i ddod?

Mae gan Gymru darged cyfreithiol i gyflawni sero net erbyn 2050 fan bellaf[1]. Er bod datgarboneiddio'n digwydd ar draws yr economi, mae'r sector amaethyddol yn lleihau'r cynnydd sy'n cael ei weld mewn mannau eraill[2]. Dros y ddegawd ddiwethaf mae fawr o newid wedi bod mewn allyriadau – sy'n cyfrif am 16% o allyriadau domestig ar hyn o bryd. Wrth i sectorau eraill wneud cynnydd, mae disgwyl i amaethyddiaeth ddod yn allyrrwr domestig mwyaf yng Nghymru erbyn canol y 2030au yn ôl y Pwyllgor Newid Hinsawdd.

Mae natur Cymru hefyd yn dirywio'n gyflym. Mae Cymru a'r DU ehangach yn cael eu hadnabod ymhlith y gwledydd sydd wedi dioddef y colledion natur mwyaf, gyda thua un o bob chwech rhywogaeth o Gymru mewn perygl o ddifodiant[3]. Mae adroddiadau *State of Nature* olynnol wedi nodi bod y math o ffermio dwys y mae polisi cyhoeddus wedi cefnogi ers degawdau yn gyrru'r golled honno.

Y tu hwnt i Gymru, y mae ein system fwyd hefyd yn cael effaith ryngwladol. Er enghraifft, mae Cymru'n dibynnu ar arwynebedd sy'n cyfateb i 40% o'i maint (823,000 hectar) i gynhyrchu dim ond wyth nwydd allweddol bob blwyddyn, fel soia ac olew palmwydd. Ac mae hanner ohonynt yn gynhyrchion sy'n cael eu defnyddio'n uniongyrchol yn ein system fwyd. Mae llawer o'r rhain yn dod o wledydd sydd â risg uchel o ddatgoedwigo, fel yn achos soia sy'n cael ei fewnforio i Gymru yn bennaf er mwyn ychwanegu at fwyd anifeiliaid[4].

Yn y cyfamser, nid yw'r rhan fwyaf o'r bwyd a'r diod a gynhyrchir yng Nghymru bellach yn cael ei fwyta yng Nghymru[5], gyda theuluoedd Cymru yn hytrach yn dibynnu i raddau helaeth ar gynnyrch o'r tu allan i Gymru am y rhan fwyaf o'u hanghenion maethol.

Gyda'i gilydd, mae'r ffactorau hyn yn tynnu sylw at yr angen am newid. Yn 2021, cyhoeddodd WWF UK yr adroddiad *Land of Plenty*[6]. Roedd yn galw am newidiadau i'r ffordd rydyn ni'n ffermio ac yn defnyddio ein tir ledled y DU. Mae hyn yn golyg cynhyrchu mwy o'r bwyd sydd ei angen arnom, a thyfu'n fwy natur gyfeillgar, gan hefyd cipio mwy o garbon i ddod yn wydn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar yr adroddiad blaenorol i edrych ar amgylchiadau penodol Cymru wrth i Lywodraeth Cymru ddatblygu cyfundrefn cymhorthdal ffermio newydd i ddisodli'r Polisi

---

[1] Llywodraeth Cymru. 2021. Cymru Sero Net: Cyllideb Garbon 2 (2021-2025). https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-10/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-25.pdf

[2] StatsCymru. 2024. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ôl blwyddyn. https://stats.llyw.cymru/cy-GB/e34d99e6-b780-4b90-89e7-aca635b7605d

[3] Sefyllfa Natur – Cymru. 2023. Adroddiad Cenedlaethol. TP26053-SoN-Wales-summary-report_WELSH-v4.pdf

[4] WWF a Maint Cymru. 2021. Cymru a Chyfrifoldeb Byd-eang. wwf_risky_b_wales.pdf


[5] Hybu Cig Cymru. 2021. Ystadegau Diwydiant. Ystadegau'r Diwydiant - Hybu Cig Cymru

[6] WWF-UK. 2022. Land of Plenty. https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2022-02/WWF_land_of_plenty.pdf

Amaethyddol Cyffredin, yn ogystal â pholisi systemau bwyd ehangach. Mae'r llwybrau gwahanol sy'n cael eu hystyried wedi'u llywio'n drwm gan fodelu a ddefnyddiwyd gan y Sustainable Food Trust yn yr adroddiad *Feeding Britian*, a modelau'r Food, Farming and Countryside Commission, The Institute for Sustainable Development and International Relations a'r Fable Calculator.

Nod yr astudiaeth hon yw adeiladu ar yr adroddiadau hyn ac archwilio enghreifftiau amgen o ddefnydd a rheoli tir, yn benodol ar gyfer Cymru.

Mae'r adroddiad yn dadlau bod hyn yn cael ei gyflawni orau trwy gefnogi ffermwyr i fabwysiadu dulliau, sy'n cymhwyso egwyddorion agroecolegol i arferion ffermio ac yn ymgorffori agroecoleg ledled y system fwyd ehangach, o'r fferm i'r fforc.



Bydd mabwysiadu'r dulliau hyn yn arwain at newidiadau sylweddol ar draws system amaethyddol Cymru, y system fwyd a'r economi ehangach. Mae goblygiadau hyn yn cael eu harchwilio drwy bedwar llwybr sy'n seiliedig ar raddfeydd gwahanol o drawsnewid agroecolegol.

Nid yw WWF Cymru'n argymell unrhyw un o'r llwybrau hyn yn benodol. Mae gan bob un fanteision i'r amgylchedd, tra'n cynnal lefelau cynhyrchu bwyd sy'n bodloni capasiti allforio maethol a chynaliadwy Cymru. Yn lle hyn, mae'r adroddiad yn cyflwyno ymchwil annibynnol sy'n galluogi sgyrsiau pellach rhwng ffermwyr, y llywodraeth a rhanddeiliaid ehangach ynghylch yr hyn y mae gan newid o'r fath y potensial i'w gyflawni.

Gyda phob ymarfer modelu o'r fath, welwch chi sawl rhagdybiaeth a chyfaddawd. Serch hynny, rydyn ni'n hyderus y bydd y data'n galluogi sgyrsiau onest am sut y gall y llwybrau hyn edrych yn ymarferol. Yn ogystal â nodi'r pethau cadarnhaol, rydym hefyd yn archwilio'r risgiau, a lle maent yn cyflawni neu yn methu â chyflawni uchelgeisiau ehangach. Mae'r risgiau o beidio â gweithredu hefyd yr un mor

arwyddocaol gan fod tywydd eithafol sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd eisoes yn costio degau o filiynau i ffermwyr Cymru bob blwyddyn.[7]

Ar ben hynny, nod yr adroddiad hwn yw nodi meysydd lle dylid canolbwyntio adnoddau cyhoeddus i frwydro yn erbyn gwendidau a meithrin cryfderau dros y degawdau i ddod. Mae pob llwybr yn cynnwys cyfaddawdau a bennir gan flaenoriaethau polisi, amgylchiadau lleol, a pharodrwydd i weithredu. Mae angen ystyried y rhain mewn ffordd integredig er mwyn i Gymru ddarparu ymateb effeithiol i'r Her Driphlyg.

Argymhellion

- Mae'n hanfodol cyrraedd targedau sero net, tra hefyd gwrthdroi dirywiad bioamrywiaeth a chynhyrchu bwyd maethlon. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru fel rheolwyr cymorth cymhorthdal ac amodau rheoleiddio yn y dyfodol. Er mwyn galluogi hyn, rhaid i'r Llywodraeth osod targed lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr daearol a chyfunol newydd yng nghyllideb carbon 3 ar gyfer y sector amaethyddol i osod llwybr ar gyfer cymorth yn y dyfodol.
- Dylid datblygu ac integreiddio cymorth penodol i annog datblygiad garddwriaeth organig ar bob graddfa gydag ymgysylltu ar lefel gymunedol i wella cysylltiadau rhwng cynhyrchu a'r cyhoedd.
- Y tu hwnt i gymorth cymhorthdal fferm uniongyrchol, dylai polisi cyhoeddus ganolbwyntio ar ychwanegu gwerth i'r gadwyn gyflenwi a datblygu gwell seilwaith bwyd i gynyddu elw a rhoi gwell mynediad i'r cyhoedd at gynnyrch Cymreig.
- Dylai cymorth amaethyddol gael ei gydnabod a'i hyrwyddo'n well o fewn y llywodraeth am ei botensial hanfodol i ddarparu mwy o sicrwydd maeth, cyfoeth natur a Chymru sero net. Ar ben hynny, dylid cynyddu buddsoddiad ynddo mewn cyllidebau yn y dyfodol i adlewyrchu graddfa'r angen a chydnabod ei werth ataliol i gyllidebau ehangach, megis y GIG, llifogydd, sychder ac ansawdd dŵr/aer.
- O ystyried y bydd symud at arferion agroecolegol yn gofyn am hyfforddiant a chyfnewid gwybodaeth ar gyfer nifer sylweddol o ffermwyr Cymreig, dylid sicrhau bod ffocws adnoddau yn darparu cymorth digonol.
- Rhaid i Lywodraeth Cymru asesu effeithiau'r trawsnewidiad agroecolegol ar yr economi gyfan a sicrhau bod ffermwyr heddiw ac yn y dyfodol ymhlith y cyntaf i elwa o unrhyw ddiwydiannau a sectorau newydd a grëwyd.
- Yn y dyfodol, dylai'r mwyafrif o gymorthdaliadau cyhoeddus cael eu gweithredu fel rhan o gytundebau aml-flwyddyn diogel ac wedi'u hariannu'n ddigonol sy'n cefnogi cost y trawsnewid. Rhaid i ffermwyr sydd eisoes yn dilyn arferion agroecolegol neu drawsnewid beidio â derbyn gostyngiad neu fwlch mewn cymorth (SFS).
- Lle gall arferion agroecolegol fod yn llai ymarferol yn ariannol, dylai cyfundrefnau cymhorthdal cyhoeddus yn y dyfodol geisio integreiddio cyfalaf preifat i roi hwb i gyfanswm y capasiti a chanolbwyntio adnoddau'n well tuag at ganlyniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol (yn enwedig targedau natur a hinsawdd).
- Rhaid i Lywodraeth Cymru sefydlu targedau lleihau llygredd maetholion dŵr croyw fel rhan o gyfres newydd o fetrigau bioamrywiaeth. Rhaid defnyddio'r rhain i feithrin buddsoddiad pellach mewn cymorth amaethyddol sy'n eu galluogi.

[7] Farmlytics. 2024. Extreme weather and its impacts of farming viability in Wales. 5126 - FARMING IN WALES_REPORT_v3.pdf

- Rhaid i gefnogaeth gyhoeddus ar gyfer trawsnewidiad agroecolegol yn y dyfodol geisio gwneud y mwyaf o'r buddion ehangach i'r economi wledig trwy gefnogi cyfleoedd hamdden ac iechyd cyhoeddus newydd. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar greu swyddi diogel, medrus sy'n cynnal a diogelu cymunedau gwledig.

Darllenwch yr adroddiad lawn yma:

https://www.wwf.org.uk/sites/default/files/2026-11/Land%20of%20Plenty%20Cymru.pdf